Cofnodion Cyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar nos Fercher y 27ain o Orffennaf 2011 am 7.30yh.

Presennol: Y Maer, y Cyng. Julia Jones, y Dirprwy Faer, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Roy Davies, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Ros Bellamy, y Cyng. Christopher Parish,
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Fran Murphy, y Cyng. Charlotte Leadbeater.

Materion yn ymwneud â'r Heddlu. Dywedodd yr SCCH Roger Anthony y cafwyd peth fandaliaeth yn y Dref ar yr 22ain o Orffennaf. Roedd yr ymholiadau'n parhau. Arestiwyd un person am ddwyn o dacsi. Arestiwyd tri am fod ym meddiant rhywfaint bach o gyffuriau mewn dau annedd. Adroddwyd bod rhywun wedi dwyn o'r til yn siop y Cooperative hefyd. Roedd yn ymddangos fod hyn yn rhan o ymgyrch ledled y wlad, gyda siopau'r Cooperative yn cael eu targedu.

Cof 120 / Gorff / 11 Cofnodion Blaenorol

Darllenwyd a chadarnhawyd bod cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher yr 22ain o Fehefin 2011, yn gofnod cywir.
Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Richard Wallace.
Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 6ed o Orffennaf 2011, yn gofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn.
Cynigwyd gan y Cyng. Richard Wallace ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 6ed o Orffennaf 2011 yn gofnod cywir ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn, gyda'r newid canlynol:
Cof 113/Gorff /11 Tynnu Lewis Printers oddi ar y rhestr o anfonebau i'w talu. Ychwanegu y talwyd yr holl anfonebau eraill trwy BACS
Cynigwyd gan y Cyng. Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.

Cof 121 / Gorff / 11 Materion yn deillio o gyfarfodydd blaenorol

Ynglŷn â Cof 113/ Gorff /11. Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod y Cyngor yn anfon anfoneb at Mr Terry Davies am y £130 a oedd yn ddyledus i Lewis Printers, am iddo gytuno'n garedig i noddi'r gwaith o gynhyrchu taflenni parc Penlan. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Ynglŷn â Cof 111/ Gorff /11. Dywedodd y Cyng. Edward Thomas ei fod wedi gwahodd JM Hopkins, Ysgol Feddygaeth Abertawe, i annerch y Cyngor ar Lygredd Aer.

Cof 122/ Gorff / 11 Gohebiaeth sy'n galw am ymateb

1. Network Rail mewn perthynas â'u parodrwydd i gynnal ymgynghoriad ynghylch datblygu llwybr caniataol tuag at lan yr afon. Cynigodd y Cyng. Roy Davies bod y Cyngor yn ymateb yn bositif i'r llythyr, a'u bod yn ceisio cyngor cyfreithiol ar yr un pryd. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid. Byddai'r Cynghorydd Sir Ieuan Jones yn dangos y llythyr i Linda Rees Jones, Cyfreithiwr CSG, i gael ei chyngor hi.
   Byddai'r Clerc yn hysbysu'r grwpiau â buddiant eraill, a fynychodd y cyfarfod safle gyda Network Rail.
2. Esyllt Harker ynglŷn â sbwriel ar y llwybr troed. Gofynnwyd i'r Clerc i gysylltu â Mario Cresci, Swyddog CSG, i ofyn iddynt i osod bin sbwriel ar hyd y llwybr troed.
3. Adroddodd y Cyng. Roy Davies ar y cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Gynghorau Cymuned lleol mewn perthynas â darparu clwb cinio i'r henoed. Byddai pob Cyngor yn anfon eu sylwadau fel y gellid anfon coflen i CSG. Soniodd y Cyng. Dawn Wallace am y sefyllfa bresennol ym Maes Elfyn. Dywedodd y CS Ieuan Jones y byddai swyddogion o CSG yn cynnal cyfarfod safle ym Maes Elfyn ar y 12fed o Awst ac y gallai cynrychiolwyr fynychu.
4. Geoffrey Williams ynglŷn â'r prosiect Croeso i Gerddwyr. Nodwyd.
5. Menter Bro Dinefwr ynglŷn â Gŵyl Fwyd Gymunedol Blas Tywi. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod £200 yn cael ei roddi i'r Ŵyl (Adran 144- i ddenu twristiaid). Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Roy Davies. Roedd pawb o blaid.

Cof 123 / Gorff / 11 Gohebiaeth er gwybodaeth.

1. Heddlu Dyfed Powys– gweithdrefnau archwilio Cyfrifon. Nodwyd.
2. Adroddiad Baner Werdd CSG. Dylid crybwyll y rhesymau pam nad yw Parc Penlan wedi derbyn Baner Werdd gyda CSG, fel ei bod hi'n bosib llwyddo yn 2012.
3. Y Cyng. Charlotte Leadbeater – yn ymddiheuro am na fyddai'n medru mynychu cwrs hyfforddi gydag Un Llais Cymru.
4. Davies & Craddock ynglŷn ag Yswiriant y Cyngor. Gofynnwyd i'r Swyddog Cyllid i geisio dyfynbrisiau cyn adnewyddu'r polisi presennol.

Cof 124 / Gorff /11 Materion Ariannol.

1. Cyfrifon i'w talu

*CGGC (gweinyddu cyflogres Gorffennaf 2011)	£ 24.30
Lyn Llewellyn (archwiliad mewnol 2010)	£ 200.00
City Loo Hire (digwyddiad ym mharc Penlan)	£ 150.00
Cymdeithas y Clercod (aelodaeth flynyddol)	£ 95.00
*Ar y Gair (cyfieithu)	£ 319.05
*Y Cyng. Christopher Parish (treuliau cyfarfod)	£ 25.20
Nice Price News (stampiau)	£ 5.52
*Chubb Fire Ltd (gwirio diffoddiaduron)	£ 63.60
*Morgan & Morgan (cetrisen inc)	£ 35.96
*Charles Sams (uwchraddio'r goleuadau yn Neuadd y Sir)	£ 2,390.40
Ferry Jazz (digwyddiad ym mharc Penlan)	£ 100.00
Des Davies (arian ar ffôn symudol)	£ 20.00
Uwchgynhadledd Twristiaeth CSG (dau gynrychiolydd)	£ 20.00

Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu pasio i'w talu. Cynigwyd gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
*Talwyd y rhain trwy BACS. Bydd y gweddill yn cael eu talu â siec.

2. Archwiliad 2010-11.

Dywedodd y Swyddog Cyllid fod Mr Lyn Llewellyn wedi cwblhau'r Archwiliad Mewnol. Dywedodd Mr Llewellyn nad oedd unrhyw faterion yr oedd yn dymuno'u crybwyll gerbron y Cyngor.

Fodd bynnag, dywedodd Mr Llewellyn, oherwydd bod y Cyngor wedi cofrestru ar gyfer gweithdrefn bancio ar-lein, bod angen iddo i ailystyried ei bolisi ar reolaeth ariannol fewnol.

Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn trafod yr eitem hon yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ym mis Medi.

Cof 125 / Gorff /11 Materion Ariannol Eraill

1. I ystyried y tendrau ar gyfer cyflenwi a gwneuthur ffenestri newydd ar gyfer Neuadd y Sir.
   Agorodd Clerc y Dref y tendrau canlynol ym mhresenoldeb y Cyng. Richard Wallace am 5.45yh., ar y 26ain o Orffennaf 2011:

David Siggery Ltd	£ 8,180 heb gynnwys TAW
Robert Morris	£ 13,322 heb gynnwys TAW
Dilwyn Thomas	£ 7,430 heb gynnwys TAW

   Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y tendr isaf yn cael ei dderbyn, h.y. Dilwyn Thomas gyda thendr o £ 7,430 heb gynnwys TAW. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Cof 126/ Gorff /11 Gŵyl y Synhwyrau.

Adroddodd y Clerc am ohebiaeth oddi wrth Tracy Kindred o bwyllgor yr Ŵyl, yn datgan y byddai'r Ŵyl yn llai o faint eleni oherwydd eu bod wedi colli arian grant, a bod y pwyllgor trefnu'n hapus i'r Cyngor i drefnu'r digwyddiad cynnau goleuadau'r Nadolig eleni. Gofynnwyd i'r Clerc i drefnu cyfarfod gyda Phwyllgor yr Ŵyl cyn gynted ag sy'n bosib.

Cof 127/ Gorff /11 I adolygu'r penderfyniad a wnaed yng Nghofnod 12/ Ebr /11(5) ar y 13eg o Ebrill 2011.

Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins, oherwydd bod newidiadau i drefniadau Gŵyl y Synhwyrau eleni, y dylai'r Pwyllgor Cyllid ystyried rhoi rhodd i'r Ŵyl yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ym mis Medi. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Roedd pawb o blaid.

Cof 128/ Gorff /11 I ystyried Cais Cynllunio E/25041

Trafododd y Cyngor y siop Sainsbury's arfaethedig. Cynigodd y Cyng. Roy Davies

a) Bod y Cyngor yn gofyn i CSG i gynnal arolwg effaith ar fanwerthu annibynnol ar y Dref o achos y datblygiad hwn.
b) Bod CSG yn asesu'r traffig, yn seiliedig ar effaith gyfun y datblygiad hwn a'r ysgol uwchradd newydd sy'n arfaethedig.

Eiliwyd y cynigion yma gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.
Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Cyngor yn canfasio trigolion lleol mewn perthynas â'r cais cynllunio hwn a bod eu barnau'n cael eu cyflwyno i'r Cyngor. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Cafodd y cynnig ei gario gan benderfyniad y mwyafrif.

Cof 129/ Gorff /11. Canmlwyddiant Pont y Brenin

Rhoddodd y Clerc adroddiad o'i sgwrs gydag Eirian James, rheolwr Hawliau Tramwy CSG. Roedd Mr James yn y broses o baratoi cais am grant ar ran y Cyngor Tref. Gofynnodd Mr James a oedd y Cyngor yn bwriadu rhoi rhodd ariannol tuag at brosiect

gwella'r bont. Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod y Cyngor yn neilltuo £1,000 ar gyfer y prosiect. Byddai £500 yn dod o gyllideb y flwyddyn ariannol bresennol a £500 o gyfrifon y flwyddyn nesaf. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

9.30yh. Bryd hyn, cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y cyfarfod yn parhau am 15 munud arall fan pellaf. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 130 / Gorff / 11 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Dywedodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones y byddai'r Cyngor Sir yn ail-farcio rhan o'r prif faes parcio ar gyfer busnesau yn rhan o Stryd Rhosmaen. Roedd y cynlluniau ar gyfer yr ysgol uwchradd newydd wedi cael eu cyhoeddi. Adroddodd y gallai arian ychwanegol fod ar gael ar gyfer Llandeilo yn unol â'r Gronfa Datblygu Gwledig newydd.

Cof 131/ Gorff /11 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Roedd Mr Bacon wedi atgyweirio cloc yr Eglwys unwaith eto, ond nid oedd wedi gofyn am dâl. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Swyddog Technegol yn cael ei dalu am y gwaith ychwanegol o weindio'r cloc yn wythnosol. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid. Byddai'r telerau'n cael eu trafod yng nghyfarfodydd mis Medi.

Cof 132 / Gorff /11 Doedd dim Materion yn ymwneud â Thrawsgludiaeth a Phriffyrdd.

Cof 133 / Gorff / 11 Adroddiad y Maer.

Rhoddodd y Maer ei adroddiad ar yr achlysuron a fynychodd ar ran y Cyngor yn ystod y mis diwethaf.

Cof 134 / Gorff /11 Digwyddiadau'r Haf ym Mharc Penlan

Rhoddodd y Clerc adroddiad am y digwyddiad. Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod £25 yn cael ei roddi i Glwb Rotari Llandeilo am eu cymorth gyda'r gwaith stiwardio. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.
Cynigodd y Cyng. Christopher Parish bod £40 yn cael ei roddi i Ambiwlans Sant Ioan am eu cymorth yn ystod y digwyddiad. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Cof 135/ Gorff /11 Adroddiadau Eraill

Cyflwynodd y Cyng. Ros Bellamy adroddiad oddi wrth yr is-grŵp Tân Gwyllt. Derbyniwyd bod yr adroddiad wedi cael ei ddarllen.

Cof 136 / Gorff /11 Doedd dim eitemau arall o fusnes y mae'r Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu y dylid eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.50yh.